**CYNGOR TREF CAERFYRDDIN**
**PWYLLGOR CYLLID**
**CYNHALIWYD AR 11 EBRILL 2024 AM 7.30YH**

Cynhaliwyd y cyfarfod trwy gyswllt fideo yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

*Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng. Jeff Thomas.*

**PRESENNOL:** Cynghorwyr: Heledd ap Gwynfor (fideo), Gareth John (fideo), Andy King (fideo), Jeff Thomas, Wyn Thomas, Aled Williams a Luned Voyle.

Emma Smith – Clerc y Dref
Wendy Dickson - Dirprwy Glerc a Rheolwr Cyllid
Catrin Llwyd - Cyfieithydd

**398. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Tom Defis, Ioan Matthews.

**399. Datgan Buddiannau**

Dim

**400. Awdurdodi llofnodi'r Gorchymyn ar gyfer Talu Atodlenni Cyfrifon Ebrill 2024.**

Ystyriodd yr aelodau y taliadau ac roeddent yn fodlon â'r rhestr. Cynigiodd y Cyng. Emlyn Schiavone y dylid cymeradwyo'r rhestr daliadau gwerth cyfanswm o **£7,840.85** a'i llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Clerc. Eiliodd y Cyng. Luned Voyle y cynnig. Cytunodd yr holl aelodau a **PHENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r holl daliadau.

**Adroddiad Clerc y Dref**

**401. Adroddiad Ariannol**

Roedd balansau Banc y Cyngor ar 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

| | **£** |
|---|---|
| HSBC Cyfrif Cyfredol | 54,768.90 |
| HSBC Cyfrif Wrth Gefn | 356,227.94 |
| **Cyfanswm yn y Banc** | **410,996.84** |

**Balansau mewn Cyfrifon Eraill ar 31 Mawrth 2024:**

Lwfans Maer - £2,457.15
Ras Hwyl y Maer - £7,695.12

- Cyfanswm y gwariant gros am y cyfnod 1af Ebrill i 31 Mawrth 2024 oedd £967,070.90.
- Cyfanswm yr incwm am yr un cyfnod oedd £202,582.03. Y gwariant net cyffredinol felly yw £764,488.87.
- Y Gyllideb Net/gofyniad Praesept ar gyfer 2023/24 yw £793,011 sydd i gyd wedi dod i law.

Atgoffwyd yr Aelodau nad oedd cyfanswm y gwariant gros yn cynnwys yr Asedau Sefydlog a brynwyd yn y flwyddyn 2023/24 a oedd yn gyfanswm o £84,806.50. Dywedodd y Dirprwy Glerc hefyd wrth yr Aelodau bod swm o £28,761 wedi ei dderbyn yn ystod 2023/24 nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y cyfanswm incwm.

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod cyfanswm y ffigwr Arian mewn Banc yn cynnwys £402,500 o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi a heb glustnodi gan adael balans gweddilliol ar gyfer 2023/24 o oddeutu £8,500.

Bydd y ffigurau terfynol yn cael eu darparu yn y datganiad cyfrifon a fydd yn cael eu darparu gan gyfrifydd y Cyngor Tref.

**NODWYD** yr adroddiad ariannol.

**402. Diweddariad Chwarterol ar y gyllideb**

Cynigiodd Emlyn Schiavone y dylid **CYMERADWYO** diweddariad chwarterol y gyllideb, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Luned Voyle. Cytunodd yr holl aelodau.

**403. Cysoniad Banc Chwarterol**

Cynigiodd y Cyng. Emlyn Schiavone y dylid **CYMERADWYO'R** cysoniadau banc ar gyfer y chwarter, ac fe gafodd y cynnig ei eilio gan y Cyng. Wyn Thomas . Cytunodd pob aelod.

**404. Debydau Uniongyrchol 2023-24**

Cynigodd y Cyng. Cynigiodd Aled Williams y dylid **CYMERADWYO** Debydau Uniongyrchol ar gyfer 2023 - 2024, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Heledd ap Gwynfor. Cytunodd yr holl aelodau.

**405. Amnewid cerbyd RTV ar gyfer y fynwent.**

Rhannodd y Clerc gyda'r Aelodau fanylion tri opsiwn posibl wrth ddisodli'r RTV presennol ym Mynwent Caerfyrddin. Ystyriodd yr aelodau y tri opsiwn gyda'r Cyng. Gareth John yn gofyn am fynd ar drywydd yr ail opsiwn ymhellach a bod manylion opsiynau prydles yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor ddiwedd y mis. Gofynnodd y Cyng. Wyn Thomas hefyd am i geisio prisiau pellach at ddibenion cymharu a chaffael.

**406. Penodi Gweithiwr Proffesiynol i gwblhau Adfer y Bandstand**

Cyflwynwyd tendrau i'r Pwyllgor gan dri chwmni a oedd wedi ceisio am y gwaith. Aseswyd y tendrau yn ôl pris, cymwysterau i gyflawni'r gwaith a'r lleoliad.

Dywedodd y Clerc ei fod mewn trafodaethau gyda Cyngor Sir Caerfyrddin ac ymgynghorydd y prosiect ynghylch y ffordd ymlaen ar gyfer y prosiect hwn o ystyried cost uchel y tendrau a dderbyniwyd. Byddai opsiynau ar gyfer cyllid grant hefyd yn cael eu dilyn.

Trafododd yr aelodau y tendrau ac ar gynnig y Cyng. Gareth John, eiliwyd gan y Cyng. Andy King, **ARGYMHELLODD** yr aelodau y dylid penodi Cais 2 ar gyfer y gwaith adfer ar y Bandstand.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:20 y.h.**